Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol T. Llew Jones
# Brynhoffnant
# Ceredigion
# SA44 6AE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2015**

## Cyd-destun

Lleolir ysgol T Llew Jones ym mhentref gwledig Brynhoffnant, Sir Geredigion, a gwasanaetha'r pentref ac ardaloedd Rhydlewis, Glynarthen Pontgarreg, Blaenporth a Penmorfa. Mae yma chwech dosbarth o oedran cymysg.

Mae 154 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr ac mae 16 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin. Derbynia'r ysgol ddisgyblion yn rhan amser i'r dosbarth meithrin yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn llawn amser i'r dosbarth derbyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Dynodir yr ysgol yn 'Ysgol cyfrwng Cymraeg' yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan tua 48% o'r disgyblion. Daw tua 1% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae 14% o'r disgyblion yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod bod ganddi 31% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes datganidad ar un o'r disgyblion a nid oes unrhyw ddisgybl mewn gofal.

Dyma y tro cyntaf i'r ysgol gael arolygiad llawn ers iddi agor ym Medi 2012. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol T. Llew Jones yn 2014-2015 yw £3623. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8697 a'r lleiafswm yw £3038. Mae Ysgol T. Llew Jones yn safle 33ain o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon i safon sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu
- Rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio geirfa raenus a naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ac yn ymestyn trafodaeth yn fedrus
- Y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol
- Ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a datblygu pob disgybl fel unigolyn cyflawn;
- Arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl ac yn ymateb i dangyflawniad trwy sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer gwelliant;
- Cysylltiad clir rhwng deilliannau'r ddogfen hunan arfarnu â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol; a bod
- Gan yr ysgol berthynas waith dda gyda  rhieni

## Argymhellion

A1 Codi safonau lefel uwch mewn mathemateg ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau darpariaeth o holl elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn enwedig o ran rhifedd ar draws y cwricwlwm ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith

A3 Darparu gweithgareddau sydd yn herio pob disgybl yn briodol

A4 Cysoni'r arferion asesu ar draws yr ysgol fel bod y marcio yn cael effaith gadarnhaol ar safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae tua hanner y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar lefel sydd yn is na'r lefel disgwyliedig mewn Cymraeg a mathemateg. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus mewn gweithgareddau dosbarth ac yn achlysurol yn ystod y dydd.

Mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae gan y rhan fwyaf eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon i safon sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol yn lled gywir gan ddefnyddio ansoddeiriau da i gyfleu naws a theimlad. Er enghraifft, wrth ysgrifennu portread o ffrind Cyw Cors a darn ffeithiol am anifail o'u dewis mae ychydig o ddisgyblion gallu uwch yn defnyddio geirfa ehangach a chymariaethau i gyfoethogi iaith.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau aeddfed yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa raenus a naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ac yn ymestyn trafodaeth yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon, gan fynegi barn am lyfrau, a disgrifio a mynegi hoffter am brif gymeriadau o fewn nofelau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig i safon fedrus gan ddefnyddio ystod o ffurfiau, atalnodi'n gywir a chynnwys cymariaethau yn llwyddiannus i gyfleu ystyr, er enghraifft, wrth ysgrifennu llythyr i faciwî adeg AilRhyfel y Byd a phortread o famgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n glir, mynegi barn ac yn addasu eu sgwrs yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn berthnasol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon briodol. Fodd bynnag nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Mae'r safon mathemategol y disgyblion ar draws yr ysgol yn gyson dda ac yn dangos cynnydd sylweddol wrth gymharu â'u perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu rhifau mewn trefn hyd at 1 000, yn dyblu a haneru, ac yn defnyddio eu gwybodaeth o dablau 2, 5 a 10 i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio gwahanol strategaethau wrth ddatrys problemau rhifiadol. Maent yn casglu data ac yn llunio graffiau priodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft, i ddangos effaith gweithgareddau corffol ar guriad y galon. Fodd bynnag nid ydynt yn dadansoddi a rhesymu data yn ddigon effeithiol. Nid yw ychydig o ddisgyblion gallu uwch yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gyda. Mae canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu dros 20% yn y flwyddyn ddiwethaf. Dros yr un amser yng nghyfnod allweddol 2 mae perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg a mathemateg hefyd wedi cynyddu dros 20%.

Ers iddi agor ym Medi 2012 mae cynnydd sylweddol wedi bod ym mherfformiad yr ysgol, er hynny nid yw ffrwyth y cynnydd yma i'w weld hyd yn hyn, wrth gymharu'r ysgol ag ysgolion eraill. Mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig wedi bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% isaf dros yr un cyfnod. Mae perfformiad ar y deilliant uwch, wedi bod yn y 50% uwch mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac yn amrywio o'r 50% uwch i'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y ddwy flynedd ers i'r ysgol agor wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y lefel uwch yn dangos tuedd ar i fyny gyda Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg gyda pherfformaid mewn gwyddoniaeth yn parhau yn y 50% is.

Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sy'n deilwng i dderbyn â'r prydau ysgol am ddim o gymharu â'r disgyblion eraill ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer corff i gadw'n heini. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn trefnu clybiau ffitrwydd i'w cyfoedion er mwyn hyrwyddo hyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos brwdfrydedd wrth gyfrannu mewn gwersi, ac mae eu hymddygiad yn dda yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gwrtais, parchus ac yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion eu cyfoedion.

Trwy'r cyngor ysgol ac amryw bwyllgorau eraill, mae rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus i chwarae rhan weithredol ym mhenderfyniadau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw llais y plentyn wedi'i ddatblygu'n llawn er mwyn cael effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa'n fawr drwy fynychu dosbarth maethu sydd wedi ei sefydlu yn yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau bywyd, cymdeithasol a phersonol buddiol sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer ymgymryd rôl gyflawn o fewn y gymuned.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae presenoldeb yr ysgol wedi codi o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol. Mae'r disgyblion yn ganolog i'r broses cynllunio ac o ganlyniad yn sicrhau fod y ddarpariaeth yn cwrdd â'u diddordebau'n dda. Mae ystod o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys profiadau preswyl, ymwelwyr ac ymweliadau addysgol, fel dilyn taith Merched Becca, yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn bwrpasol.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl yn amlygu eu hunain o fewn y cynllunio. Fodd bynnag nid yw'r ysgol gyfan wedi mynd i'r afael ar ddarparu her bwrpasol i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog yn llawn, yn enwedig mewn gwaith ysgrifennu a mathemateg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae pob un ystafell wedi ei henwi ar ôl trysorau T Llew Jones ac mae nifer o feirdd cyfoes wedi ymweld â'r ysgol i sôn am eu cerddi, er enghraifft, Euros Salisbury, Idris Reynolds a Dewi Pws. Mae safon modelu iaith raenus oedolion, yn ogystal â'r ystod eang o brofiadau cyfoethog, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu brwdfrydedd tuag at eu Cymreictod.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Yn ddiweddar cynhaliwyd ddiwrnod o werthu nwyddau Masnach Deg a chynnal taith gerdded noddedig er mwyn codi arian at Uganda. Mae ganddynt gysylltiadau agos gydag ysgol yn Sweden ac yn ddiweddar wedi cyfnewid e-byst er mwyn codi ymwybyddiaeth o wahanol ffyrdd o fyw.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi mae athrawon yn darparu gwaith sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion. Mae cyflymder bywiog y gwersi da yn cynnal brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r cynorthwywyr yn chwarae rôl effeithiol iawn wrth gefnogi'r dysgu ac mae perthynas waith cadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mewn ychydig iawn o wersi lle gwelir arfer da iawn mae'r addysgu yn adeiladu'n effeithiol iawn ar wybodaeth flaenorol ac yn herio disgyblion i ddatblygu eu medrau i lefel uwch. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gwers. Mae'r arfer o rannu meini prawf llwyddiant yn cael effaith gadarn ar allu llawer o ddisgyblion i wybod beth sydd angen iddyn nhw wneud i gyflawni eu gwaith. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Fodd bynnag, anghyson yw'r sylwadau adeiladol a roddir ac, o ganlyniad, nid yw bob amser yn glir i'r disgyblion beth sydd angen iddyn nhw wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Yn y dosbarthiadau lle caiff disgyblion gyfle i werthuso gwaith cyfoedion maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'u cyrhaeddiad ondnid yw'r arfer yma wedi ei wreiddio yn gadarn ar draws yr ysgol.

Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn effeithiol iawn wrth olrhain cynnydd disgyblion. Mae’r dulliau sy’n cael eu defnyddio yn rhai cynhwysfawr sydd yn llwyddo i adnabod a thargedu anghenion disgyblion yn gynnar iawn. Mae’r ysgol yn dadansoddi perfformiad y disgyblion yn drwyadl ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn ymyrraeth gadarn. O ganlyniad mae eu safonau wedi gwella’n sylweddol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer herio disgyblion gallu uwch, yn enwedig mewn mathemateg, wedi ei ddatblygu’n llawn.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn briodol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae trefniadau effeithiol mewn lle er mwyn cefnogi lles a datblygiad personol ac addysgol y disgyblion. Caiff datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol ac ysbrydol y disgyblion eu datblygu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol drwy wasanaethau rheolaidd yn y dosbarth ac fel ysgol gyfan. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion trwy weithgareddau fel chwaraeon, dawnsio disgo a thyfu llysiau yn yr ardd.

Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth o safon uchel iawn ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, ac yn defnyddio data asesiadau mewnol i adnabod grwpiau o blant sydd angen ymyrraeth. Mae effaith y rhaglenni ymyrraeth ar gynnydd y disgyblion dros gyfnod o amser byr yn rhagorol. Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr o dracio cynnydd y disgyblion ac o ganlyniad maent yn sicrhau bod yr ymyrraeth gywir yn ymateb i anghenion y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystafell maethu ac ystafell sensori sydd yn cael eu defnyddio i gynnig gwasanaeth gwerthfawr i ddisgyblion a rhieni. Mae’r ysgol yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion sydd angen cymorth gyda’i sgiliau personol a chymdeithasol i dderbyn cynhaliaieth personol a chefnogaeth addysgol. O ganlyniad mae sgiliau cymdeithasol y disgyblion yma wedi gwella’n eithriadol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau a chysylltiadau effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol sydd yn sicrhau bod lles y disgyblion a’u teuluoedd yn cael y gofal a’r gynhaliaeth bwrpasol. Mae’r gynhaliaeth mae’r disgyblion yn derbyn yn yr ystafelloedd maethu a sensori yn elfen gref o’r ddarpariaeth.

Mae cynlluniau addysg unigol yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. O dan arweiniad arbennig y cynorthwywyr mae rhaglenni ymyrraeth yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion. O ganlyniad, mae canlyniadau profion cenedlaethol yn dangos bod y disgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o agweddau o’r cwricwlwm.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol T Llew Jones yn gymuned gynhwysol sy’n annog y disgyblion i feithrin parch a gofal at ei gilydd

Mae’r ysgol yn hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymdrech yn llwyddiannus, ac mae mentrau fel ‘techno wichiaid’ yn datblygu agweddau cadarnhaol o ran cyfrifoldeb a goddefgarwch yn effeithiol.

Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau’r ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i’r ddarpariaeth. Mae pwyslais mawr ar barch o fewn yr ysgol ac mae gwerthoedd yn derbyn sylw haeddianol.

Mae’r ysgol yn adeilad newydd sy’n darparu amgylchedd ysgogol i ddisgyblion ddysgu, gyda’r ardaloedd addysgu yn olau a deniadol. Mae’r adeilad yn cynnig amrywiaeth eang o offer ac adnoddau o’r safon uchaf ac mae’r ysgol yn gwneud defnydd da ohonynt. Mae nifer o arddangosfeydd ar y waliau sy’n dangos gwaith a chyflawniadau'r disgyblion yn briodol.

Mae’r neuadd gymunedol yn cael ei defnyddio’n effeithiol ar gyfer y clwb brecwast, amser cinio a gweithgareddau addysg gorfforol. Mae’r gymuned yn gwneud defnydd priodol o’r neuadd ar gyfer cynnal gwersi Cymraeg i oedolion a gweithgareddau Adran yr Urdd.

Mae’r ardaloedd awyr agored eang yn darparu amgylchedd diddorol ac amrywiol. Mae’r ardal allanol mewn cyflwr da, yn ddiogel, ac yn cael ei gynnal a’i gadw i safon uchel iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n seiliedig ar godi safonau a datblygu pob disgybl fel unigolyn cyflawn. Mae’n llwyddo i gyfleu’r weledigaeth honno i’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr yn llwyddiannus. Mae ganddo ymwybyddiaeth dda o gryfderau’r ysgol a meysydd i’w datblygu a thrwy ei arweiniad cadarn, mae’n gosod cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae’r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod systemau cadarn mewn lle i adnabod anghenion pob disgybl. Mae arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl ac yn ymateb i dangyflawniad trwy sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer gwelliant.

Mae swydd ddisgrifiadau’r staff yn gyfredol ac yn nodi eu rôl a’u cyfrifoldebau’n glir. Mae’r cydlynwyr pwnc yn cymryd rôl gynyddol wrth fonitro ansawdd y dysgu a’r addysgu. Mae arweinwyr yr ysgol yn monitro cynnydd gweithdrefnau a roddwyd ar waith yn erbyn blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn ymateb yn addas i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw priodol yng ngwaith yr ysgol ac mae’r ysgol yn cynllunio’n fedrus er mwyn ymateb i amddifadedd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth gyson am ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion trwy adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth â thrwy deithiau cerdded. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ag ysgolion tebyg yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol ac yn dechrau herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad. Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan briodol yn y broses o lunio'r adroddiad hunan arfarnu ac maent yn dechrau cymryd rôl strategol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunan arfarnu wedi ei seilio ar ystod eang a chynhwysfawr o dystiolaeth addas a phwrpasol. Mae'r broses yn cynnwys casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys dadansoddiad ddata, craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a chasglu barn staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Yn gyffredinol mae mwyafrif yr adroddiadau sy'n deillio o arsylwadau monitro yn arfarnol ac yn nodi'r camau i'w datblygu. Mae arweinwyr yr ysgol a chydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n effeithiol at y broses.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn cynnig darlun cywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae cysylltiad clir rhwng deilliannau'r hunan arfarnu â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen weithredol, ac yn seiliedig ar gyfraniadau gan y llywodraethwyr, yr uwch dim rheoli, cydlynwyr pwnc a holl staff yr ysgol. Mae'r blaenoriaethau wedi eu hariannu'n briodol ac maent yn cael eu monitro yn effeithiol i arfarnu effaith ar y safonau. Caiff cynllun gwella'r ysgol ei fonitro'n effeithiol gan athrawon a llywodraethwyr yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau fod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith da gyda rhieni. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynnig yn rheolaidd yn ystod 'Gŵyl Gwener' yn llwyddo i ddatblygu ar y berthynas dda sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae fforwm rhieni yn adeiladu'n llwyddiannus ar y bartneriaeth agos ac agored yma drwy wahodd rhieni i fynegi barn am y ddarpariaeth a datblygu polisïau ar y cyd â'r ysgol.

Ers iddi agor mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned ac yn cymryd rhan mewn cyngherddau, eisteddfodau'r ardal a gweithgareddau fel 'Gŵyl Nôl a 'Mlaen'.

Mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sy'n cyfarfod yn ddyddiol yn yr ysgol. Mae'r bartneriaeth yma yn lleihau pryderon plant wrth iddynt ddechrau'r ysgol ac ymgartrefu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau priodol gyda tair ysgol uwchradd leol. Mae ychydig o ddisgyblion ysgol uwchradd yn mynychu'r ysgol fel rhan o'u hastudiaethau i

hyfforddi dawnsio disgo ac ymarfer corff yn ystod clwb heini. O ganlyniad i'r bartneriaeth yma mae disgyblion blwyddyn 6 yn llwyddo i feithin perthynas dda gyda rhai disgyblion o'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn esmwytho'r broses o drosglwyddo.

Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ysgolion clwstwr a'r ysgolion uwchradd fel rhan o drefniadaui safoni a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion. O ganlyniad, mae'r athrawon wedi datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ofynion deilliannau a lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefel briodol o staff gan yr ysgol ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Gwneir defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael i ehangu'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ardal tu allan. Defnyddir cynorthwywyr dosbarth yn llwyddiannus iawn i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion a datblygu agweddau o les disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gynllun clir a chynhwysfawr sydd yn nodi cefnogaeth addas ar gyfer disgyblion difreintiedig. Caiff y cynllun ei fonitro'n gyson gan arweinwyr yr ysgol. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn wedi dylanwadu'n bositif ar ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad syddyn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r athrawon. Mae hyfforddiant diweddar ar sut i ddefnyddio adnoddau mathemateg wedi cael effaith buddiol ar safonau yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae ymglymiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol fewnol ac allanol yr ysgol yn gadarn ac yn arwain at godi safonau. Er enghraifft mae'r ysgol wedi cydweithio'n dda ag ysgolion y dalgylch er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r addysgu ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Caiff gwariant ei fonitro'n effeithiol iawn gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. O ystyried deilliannau disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672371 - YSGOL GYNRADD T LLEW JONES**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 168 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 19 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 63.2 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 63.2 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 31.6 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 78.9 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 36.8 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 89.5 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 36.8 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672371 - YSGOL GYNRADD T LLEW JONES**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 168 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | * | 16 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | * | 75.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 16 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 87.5 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 31.3 | 40.9 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 16 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 68.8 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 31.3 | 36.4 |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 16 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 75.0 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 25.0 | 22.7 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 16 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 81.3 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 43.8 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 90 | 87<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 90 | 70<br>78% | 20<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 90 | 90<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 40 | 30<br>75% | 10<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 41 | 27<br>66% | 14<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 41 | 28<br>68% | 13<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 41 | 22<br>54% | 17<br>41% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 41 | 18<br>44% | 22<br>54% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 40 | 23<br>57% | 17<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 41 | 29<br>71% | 12<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 41 | 15<br>37% | 23<br>56% | 2<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 41 | 21<br>51% | 16<br>39% | 1<br>2% | 1<br>2% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 41 | 22<br>54% | 19<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 41 | 29<br>71% | 12<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 38 | 21<br>55% | 15<br>39% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 41 | 21<br>51% | 17<br>41% | 3<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 41 | 25<br>61% | 14<br>34% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 41 | 24<br>59% | 15<br>37% | 0<br>0% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 41 | 21<br>51% | 19<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 38 | 14<br>37% | 14<br>37% | 1<br>3% | 0<br>0% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 41 | 23<br>56% | 17<br>41% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 41 | 29<br>71% | 12<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Nia Ward | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alwyn Ward | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.